

**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M48  
(CYFFORDD 23 (ROGIET), CAS-GWENT I  
GYFFORDD 2 (CYFNEWIDFA NEWHOUSE),  
SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU DROS  
DRO A THERFYN CYFLYMDER 40 MYA)  
2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar draffordd yr M48, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 23 (Rogiet), Cas-gwent hyd at Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) yn Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o draffordd yr M48 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd;

ii. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o draffordd yr M48 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd;

iii. gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys), yn ôl y gofyn, ar y darn o'r M48 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Disgwylir y bydd y terfyn cyflymder o 40 mya yn weithredol yn ysbeidiol yn ystod y dydd (06:00 o'r gloch tan 20:00 o'r gloch) yn ystod cyfnod y gwaith.

Disgwylir y bydd y darnau o'r draffordd a ddisgrifir yn i. ac ii. uchod yn cau ar 15 Ionawr 2024 ac y byddant ar gau yn ysbeidiol dros nos (20:00 o'r gloch tan 06:00 o'r gloch) tan fore 31 Mawrth 2024.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, mewn grym yn ysbeidiol o 20:00 o'r gloch ar 15 Ionawr 2024, ac y byddant yn parhau mewn grym tan 06:00 o'r gloch ar 31 Mawrth 2024, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau i fod yn ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamsrallennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**THE M48 MOTORWAY (JUNCTION 23  
(ROGIET), CHEPSTOW TO (JUNCTION 2  
(NEWHOUSE INTERCHANGE),  
MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES AND 40 MPH  
SPEED LIMIT) ORDER  
2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M48 motorway at Junction 23 (Rogiet), Chepstow to Junction 2 (Newhouse Interchange) in the County of Monmouthshire.

The effect of the Order will be to temporarily:

i. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the M48 motorway described in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are also described therein;

ii. prohibit all vehicles, other than those being used for the works, from proceeding on the lengths of the M48 motorway described in Schedule 2 to this Notice. The alternative routes are also described therein.

iii. impose a 40 mph speed limit on all motor vehicles (other than those being used by the emergency services), as required, on the length of the M48 described in Schedule 2 to this Notice. The 40 mph speed limit is expected to operate intermittently during the daytime (06:00 hours until 20:00 hours) during the works period.

Closures of the motorway at i. and ii. above are expected to come into force on 15 January 2024 and operate intermittently overnight (20:00 hours until 06:00 hours) until the morning on 31 March 2024.

The prohibition and restriction, which will be signed accordingly, will be in force intermittently from 20:00 hours on 15 January 2024 and remain until 06:00 hours on 31 March 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynon, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

#### **ATODLEN 1**

##### **Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill**

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr M48 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at y man lle y mae'n uno â thraffordd yr M4 wrth Gyffordd 23 (Rogiet).

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r gorllewin sy'n dymuno parhau ar hyd yr M48 ac ymuno â'r M4 wrth Gyffordd 23 fydd ailymuno â'r M48 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2, mynd tua'r dwyrain i draffordd yr M4 gan ymadael wrth Gyffordd 20 (Cyfnewidfa Almondsbury) ac ymuno â'r M5 tua'r de hyd at Gyffordd 16 (Cyfnewidfa Filton/Thornbury), wedyn cymryd y bedwaredd allanfa wrth y gylchfan ac ailymuno â'r M5 tua'r gogledd, cymryd yr allanfa gyntaf tua'r gorllewin ac ailymuno â'r M4 tua'r gorllewin hyd at Gyffordd 23 (Rogiet).

#### **ATODLEN 2**

##### **Gwahardd Cerbydau Dros Dro, Terfyn Cyflymder 40mya a Llwybrau Eraill**

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o'r man lle y mae'n gwyro oddi wrth draffordd yr M4 wrth Gyffordd 23 (Rogiet) hyd at ei thrwyniad â ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r dwyrain o Gyffordd 23 (Rogiet) fydd parhau ar hyd traffordd yr M4 tua'r dwyrain gan ymadael wrth Gyffordd 20 (Cyfnewidfa Almondsbury) ac ymuno â'r M5 tua'r de hyd at Gyffordd 16 (Cyfnewidfa Filton/Thornbury), wedyn cymryd y bedwaredd allanfa wrth y gylchfan ac ailymuno â'r M5 tua'r gogledd, cymryd yr allanfa gyntaf i'r gorllewin ac ailymuno â'r M4 tua'r gorllewin gan ymuno â'r M48 wrth Gyffordd 21 (Cyfnewidfa Awkley).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

#### **SCHEDULE 1**

##### **Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes**

The length of the M48 westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange) to its merge with the M4 motorway at Junction 23 (Rogiet).

The alternative route for westbound traffic wishing to continue along the M48 and join the M4 at Junction 23, will re-join the M48 eastbound at Junction 2, proceed eastbound onto the M4 motorway to exit at Junction 20 (Almondsbury Interchange) and join the M5 southbound to Junction 16 (Filton/Thornbury Interchange), then take the fourth exit at the roundabout and re-join the M5 northbound, then take the first exit westbound and re-join the M4 westbound to Junction 23 (Rogiet).

#### **SCHEDULE 2**

##### **Temporary Prohibition of Vehicles, 40mph Speed Limit & Alternative Routes**

The length of the M48 eastbound carriageway that extends from where it diverges from the M4 Motorway at Junction 23 (Rogiet) to its nosing with the M48 eastbound entry slip road at Junction 2 (Newhouse Interchange).

The alternative route for eastbound traffic from Junction 23 (Rogiet) will continue on the M4 motorway eastbound to exit at Junction 20 (Almondsbury Interchange) and join the M5 southbound to Junction 16 (Filton/Thornbury Interchange), then take the fourth exit at the roundabout and re-join the M5 northbound, then take the first exit westbound and re-join the M4 westbound to join the M48 at Junction 21 (Awkley Interchange).

